Adroddiad ar gyfer

Beach House Day Nursery

Beach House Day Nursery
37 Marine Drive
Y Rhyl
LL18 3AY

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Beach House Day Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Beach House Day Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Samantha Elie, Olivia Allen |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | |
| Person â chyfrifoldeb | Samantha Elie, Olivia Allen, Bronwen Armitage |
| Nifer y lleoedd | 42 |
| Ystod oedran y plant | 0 i 5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 15 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 11 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Rhwng 7am a 6pm bob dydd |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 11/01/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 24/06/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu'r prosesau arsylwi ac asesu ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas ag Arweinyddiaeth, i'w chyhoeddi ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant: Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau pwrpasol ynghylch eu chwarae a'u dysgu. Maent yn dewis eu hadnoddau eu hunain yn hyderus, sy'n cefnogi eu sgiliau gwneud penderfyniadau a'u hannibyniaeth yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dewis pa ffordd i ddod lawr y llithren ac yn penderfynu pryd yr hoffent wrando ar stori gydag ymarferydd neu edrych ar ffotograffau o'u teulu. Mae plant o bob oedran, gan gynnwys y babanod, yn cyfleu eu hanghenion yn llwyddiannus mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran, gan eu bod yn gwybod bod yr ymarferwyr yn parchu eu dewisiadau, ac y byddant yn gwrando ar eu syniadau ac yn ymateb mewn ffordd sensitif. Mae'r plant yn dangos eu boddhad drwy ganu, gwenu a churo dwylo.

Mae bron pob un o'r plant yn setlo'n arbennig o dda ac yn teimlo'n ddiogel wrth iddynt chwarae'n hyderus ochr yn ochr â'u ffrindiau. Mae'r plant yn rhyngweithio â'i gilydd ac â'r ymarferwyr yn arbennig o dda. Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb yn yr hyn y mae eu ffrindiau yn ei wneud ac yn ychwanegu at gêm drwy gyflwyno mat cerddoriaeth sy'n creu llawer o hwyl. Mae bron pob un o'r plant yn dangos parch mawr tuag at ei gilydd, ac mae'r rhan fwyaf yn ystyriol iawn, er enghraifft wrth gysuro ffrind. Mae'r plant yn ymwybodol o reolau syml, ac yn atgoffa eu ffrindiau, er enghraifft, i fod yn ofalus ar hyd y rhannau anodd wrth ddringo. Mae'r plant yn cydweithio'n hynod effeithiol, er enghraifft wrth dacluso teganau cyn mynd allan i'r awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn weithgar ac yn dysgu drwy chwarae yn gyson dda. Er enghraifft, maent yn chwilfrydig am fwystfilod bach ac yn chwilio'n frwdfrydig am fathau gwahanol o drychfilod mewn teiars. Maent yn mwynhau archwilio o dan y teiars ac yn llawn cynnwrf pan fyddant yn dod o hyd i rywbeth i'w roi yn eu jariau chwyddwydr. Roedd y plant wedi'u cyfareddu wrth i bryf coed ymlusgo ar hyd llaw ymarferydd, gan gymryd eu tro i ddyfalu faint o goesau oedd ganddo. Wrth iddynt ddod i mewn o'r ardal awyr agored, maent am ddangos yr hyn y maent wedi dod o hyd iddo i'r plant iau, gan esbonio'n fanwl wrthynt am y mwydyn cyn ei osod yn ôl yn ddiogel y tu allan.

Mae bron pob un yn meithrin sgiliau annibyniaeth yn eithriadol o dda, fel arllwys eu diodydd eu hunain a defnyddio teclynnau gweini i ddewis mathau gwahanol o ffrwythau heb fawr ddim cymorth. Maent yn defnyddio weips i lanhau eu hwyneb a drych i edrych ar eu hunain. Mae'r plant yn cario eu cadeiriau eu hunain yn ddiogel ac yn penderfynu ble yr hoffent eistedd yn ystod amseroedd bwyd. Mae eu sgiliau corfforol yn datblygu'n eithriadol o dda, ac mae plant o bob oedran yn cymryd risgiau pwyllog, fel croesi pont bren sigledig. Maent yn hyderus iawn ac yn llawn balchder wrth ddangos pa mor uchel y gallant ddringo.

## Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae bron pob un o'r plant yn hapus, yn chwilfrydig ac yn ymgysylltu'n dda â'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt. Maent yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol, yn enwedig wrth ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae rhai o'r plant yn cydweithio'n llwyddiannus i greu tacsi i deithio i'r parc yn yr ardal blociau. Maent yn penderfynu faint o olwynion i'w rhoi ar y tacsi ac ar ôl trafod, maent yn dewis cynnwys olwyn sbâr ar gyfer y daith yn ôl adref.

Mae llawer o'r plant yn hyderus wrth gyfathrebu ac yn rhannu eu syniadau a'u safbwyntiau â'r oedolion ac â'i gilydd yn dda. Maent yn gofyn cwestiynau i sicrhau eu bod yn deall ac yn siarad â'i gilydd wrth iddynt gyd-chwarae, er enghraifft wrth rannu adnoddau i wneud cestyll tywod. Mae llawer o'r plant yn mwynhau canu caneuon a hwiangerddi cyfarwydd ac yn fwy na pharod i wneud y symudiadau priodol. Maent yn mwynhau gwrando ar straeon y mae'r ymarferwyr yn eu darllen iddynt ac yn edrych ar lyfrau yn frwdfrydig gan ailadrodd eu hoff straeon gan ddefnyddio darluniau.

Mae llawer o'r plant yn meithrin eu sgiliau gwneud marciau yn briodol yn yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu rhestrau o eitemau er mwyn mynd i siopa yn yr ardal gartref i brynu cynhwysion i wneud pitsas. Mae rhai o'r plant yn dangos diddordeb yn eu henwau ac yn dechrau ysgrifennu'r llythrennau cyntaf, gyda chymorth.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn defnyddio eu sgiliau digidol yn dda wrth chwarae ac archwilio. Er enghraifft, maent yn defnyddio camerâu i dynnu lluniau o greaduriaid y maent yn dod o hyd iddynt ar helfa drysor. Mae rhai o'r plant yn mwynhau archwilio ffyrdd o ddefnyddio teganau y gellir eu rhaglennu yn hyderus ac yn defnyddio synwyryddion metel i ddod o hyd i allweddi wedi'u cuddio. Mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd da o ran eu datblygiad mathemategol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn naturiol wrth chwarae, er enghraifft i ddisgrifio a yw eu powlenni o ddŵr yn ‘llawn’ neu'n ‘hanner llawn’. Mae llawer yn cyfrif ac yn adnabod rhifau hyd at bump yn hyderus, fel wrth gyfrif dail.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datrys problemau'n llwyddiannus wrth chwarae ac yn dangos dyfalbarhad yn ystod gweithgareddau. Er enghraifft, wrth reidio beiciau a sgwteri mae rhai o'r plant yn datblygu system ‘goleuadau traffig’ effeithiol i atal gwrthdrawiadau pan fo'u llwybr wedi'i rwystro gan blant eraill a oedd yn adeiladu tŷ â deunyddiau adeiladu.

Mae sgiliau creadigol llawer o'r plant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn chwarae gan ddefnyddio eu dychymyg, er enghraifft drwy wneud cartrefi i falwod o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, ac yn mwynhau paentio lluniau o'u hoff greaduriaid y maent yn dod o hyd iddynt yn yr ardd flodau. Mae rhai o'r plant yn creu ffyn hud o ddeunyddiau naturiol, ac yn mwynhau esgus troi'r plant a'r oedolion yn anifeiliaid a choed gwahanol.

Mae llawer o'r plant yn datblygu dealltwriaeth briodol o'r Gymraeg ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml yn dda. Maent yn dangos brwdfrydedd wrth ganu caneuon Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall ac yn defnyddio rhai geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml fel rhan o'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin eu sgiliau corfforol yn effeithiol. Maent yn heini ac yn mwynhau rhedeg, neidio, a hercian dan do ac yn yr awyr agored. Mae llawer o'r plant yn meithrin sgiliau echddygol manwl yn llwyddiannus, er enghraifft drwy ddefnyddio gefeiliau i ddewis ffrwythau a mafon yn ystod amser byrbryd ac wrth gyfrif ffa yn yr ardal gartref.

## Gofal a datblygiad:  Rhagorol

Mae'r ymarferwyr yn darparu cymorth rhagorol i'r plant. Maent yn hyblyg ac maent yn rhoi blaenoriaeth i syniadau ac anghenion y plant, sy'n sicrhau eu bod yn rhyngweithio'n hynod effeithiol. Maent yn rhoi digon o amser i'r plant setlo wrth iddynt gyrraedd y lleoliad a pharatoi i chwarae. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi iechyd a llesiant y plant yn effeithiol iawn. Maent yn goruchwylio'r plant yn dda iawn wrth gasglu'r plant o'r ysgol, er enghraifft wrth groesi prif ffordd brysur yn ddiogel.

Mae'r lefelau staffio yn briodol i ddiwallu anghenion y lleoliad, a chaiff yr adnoddau eu rheoli'n effeithlon. Mae'r ymarferwyr yn rhoi polisïau gwerth chweil ar waith yn gyson dda ac yn mynychu amrywiaeth o gyrsiau gwahanol i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn ffordd hynod lwyddiannus. Maent yn dilyn canllawiau arfer gorau mewn perthynas â diogelu plant a chaiff y manylion eu cynnwys ar gefn eu laniardau, sy'n golygu bod y wybodaeth hon ar gael iddynt bob amser er mwyn cadw'n plant yn ddiogel. Defnyddir y cyfarfodydd tîm a gynhelir bob tymor yn effeithiol i drafod pob agwedd ar y ddarpariaeth, ac mae diogelu yn eitem sefydlog ar yr agenda. Mae'r gweithdrefnau diogelu yn glir ac mae'r staff yn eu deall yn dda. Mae'r ymarferwyr yn rhoi gwybod am bryderon yn uniongyrchol i'r arweinydd diogelu dynodedig, ac maent yn deall y llwybrau atgyfeirio cywir i'w dilyn. Maen hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gryf o ddiogelu a llinellau atebolrwydd priodol. Mae trafodaethau dyddiol anffurfiol yn gwella'r broses gyfathrebu a'r gallu i ymateb ymhellach. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd sylw arbennig o bob agwedd ar hylendid. Er enghraifft, maent yn gwisgo ffedogau a menig er mwyn atal achosion o groes-heintio. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod dŵr ar gael yn hawdd i'r plant ac maent yn eu hatgoffa'n garedig i yfed yn ystod y dydd. Maent yn sicrhau y caiff alergeddau'r plant eu cofnodi'n drylwyr er mwyn gwneud yn siŵr y gall pawb fwynhau eu bwyd yn ddiogel. Mae cofnodion fel manylion unigol y plant yn gyflawn, gan gynnwys y cofnodion ar gyfer nodi anghenion gofal iechyd cynhwysfawr sy'n sicrhau bod yr ymarferwyr yn darparu lefel uchel o ofal i'r plant gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau cofrestr

presenoldeb ddyddiol, a chaiff mân anafiadau eu nodi'n effeithlon a'u dwyn at sylw rhieni a gofalwyr drwy ap.

Mae'r ymarferwyr yn eithriadol o feddylgar, yn ddigynnwrf ac yn addfwyn wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y lleoliad yn gyson dda. Maent yn siarad ac yn defnyddio arwyddion i gyfathrebu â'r plant mewn ffordd sensitif ac yn eu canmol yn aml am eu cyflawniadau, er enghraifft wrth rannu pryd o fwyd yn y gegin yn yr awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn gyson ymwybodol o ddiddordebau'r plant, sy'n sicrhau y gallant ryngweithio â nhw'n effeithiol. Maent yn rhagweithiol ac yn atgoffa'r plant o reolau syml, fel rhoi gofod personol i'w ffrindiau. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cyfleoedd dysgu drwy chwarae yn y ffordd orau posibl ac anaml y byddant yn colli cyfleoedd i ddatblygu chwilfrydedd y plant o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, wrth ddangos buwch goch gota i'r plant a gofyn iddynt gyfri'r smotiau a pham ei bod yn goglais eu dwylo wrth iddynt ei dal yn ofalus. Maent yn gwybod yn reddfol pryd i gamu'n ôl a rhoi cyfle i'r plant ddarganfod pethau drostynt eu hunain, neu bryd i ymyrryd. O ganlyniad, maent yn cefnogi'r plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn arbennig o dda.

Mae'r ymarferwyr wedi meithrin cydberthnasau llwyddiannus iawn â'r rhieni. Mae ap digidol y lleoliad yn darparu gwybodaeth glir a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd i'r rhieni yn ystod y dydd. Hefyd, mae'r ymarferwyr yn cymryd amser i siarad â'r rhieni bob dydd. Mae hyn yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu addasu'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion dysgu'r plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae hyn yn golygu bod y plant yn hapus ac y gall yr ymarferwyr ddarparu lefel eithriadol o ofal iddynt.

## Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae plant yn dysgu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o'r plant ac maent yn deall cryfderau ac anghenion unigol y plant yn eithriadol o dda. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a diddorol sy'n annog chwilfrydedd y plant yn dda. Maent yn cynnig amrywiaeth o brofiadau dysgu uniongyrchol dilys y tu hwnt i'r lleoliad yn y gymuned leol.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i feithrin sgiliau rhifedd y plant. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gyfrif nifer y mafon y maent yn eu rhoi yn eu bowlenni yn ystod amser byrbryd a'r olwynion ar y cerbydau y maent wedi'u hadeiladu. Drwy gynnal trafodaethau medrus, mae'r ymarferwyr yn cyflwyno'r cysyniad o fesur yn effeithiol wrth i'r plant adeiladu ac ymgymryd â chyfleoedd chwarae ymchwiliol.

Mae llawer o'r ymarferwyr yn gofyn cwestiynau yn fedrus er mwyn gwella sgiliau datrys problemau a sgiliau meddwl y plant. Maent yn deall pryd i ymyrryd a phryd i gymryd cam

yn ôl er mwyn rhoi amser i'r plant ddatrys pethau eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn gofyn cwestiynau'n effeithiol er mwyn annog y plant i feddwl a datrys problemau maent yn dod ar eu traws wrth iddynt chwarae ac i'w hannog i fyfyrio.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol gyda'r plant, ac maent yn fodelau rôl da ar gyfer yr iaith. Mae llawer ohonynt yn siarad yn glir ac yn bwrpasol i gyflwyno geirfa newydd i'r plant, gan eu hannog i ddatblygu eu dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion syml. Maent yn annog y plant i gymryd rhan wrth ganu amrywiaeth o ganeuon a hwiangerddi Cymraeg ac yn defnyddio Cymraeg achlysurol i roi cyfarwyddiadau a chanmol y plant pan fyddant wedi gwneud hynny'n dda.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod llawer o'r gweithgareddau yn cael eu hysgogi gan y plant a'u bod yn seiliedig ar eu diddordebau. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd cyffrous i'r plant fod yn fôr-ladron ar ôl darllen stori am gist môr-leidr. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn meithrin sgiliau cyfathrebu'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn rhannu llyfrau â'r plant, yn modelu sut i ddarllen llyfr yn gywir ac yn trafod y straeon yn frwdfrydig. Mae hyn yn helpu i feithrin mwynhad wrth ddarllen.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau sy'n galluogi'r plant i ddatblygu'n llwyddiannus o safbwynt ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i'r plant ddysgu am eu hunaniaeth Gymraeg a diwylliant Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, blasu bwydydd traddodiadol o Gymru a dosbarthu cennin Pedr i'r busnesau a'r bobl leol. Mae'r ymarferwyr yn darparu arddangosfeydd llawn gwybodaeth am deuluoedd a nodweddion lleol, sy'n helpu'r plant i ddatblygu ymdeimlad cryf o Gynefin. Caiff cymuned amrywiol ei hadlewyrchu'n effeithiol drwy ymweld â'r ardal leol, ffigurau a straeon a thrwy ddathlu traddodiadau o wledydd gwahanol.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn chwarae ac yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i nodi camau dysgu nesaf y plant. Mae'r broses hon yn helpu'r ymarferwyr i gael gwybod diddordebau'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i gynllunio'n effeithiol i gefnogi dysgu parhaus y plant.

## Yr Amgylchedd:  Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant ac mae'n rhaid i ymwelwyr gofrestru wrth gyrraedd y safle ar ôl dangos prawf adnabod. Mae'r asesiadau risg yn nodi unrhyw beryglon posibl yn effeithiol ac yn cadw'r plant yn ddiogel. Mae amserlen lanhau a phrosesau rheoli heintiau da yn golygu bod y lleoliad yn lân, ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod lefel effeithiol o hylendid ar waith. Caiff asesiadau risg tân ac ymarferion tân eu cynnal i sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd dysgu tawel ac effeithiol gan ddefnyddio lliwiau a deunyddiau niwtral. Maent yn sicrhau bod gan y plant ddigon o le i symud o gwmpas a

chaiff gwaith y plant a ffotograffau ohonynt eu harddangos i roi ymdeimlad o gyflawniad iddynt. Mae'r arweinwyr wedi creu arddangosfa ar y wal o ffotograffau o aelodau o deuluoedd y plant, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu storio ar lefel isel, sy'n golygu y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn lefel isel, cyfarpar ac ategolion addas, sy'n galluogi pawb i chwarae a dysgu gyda'i gilydd ar lefel o'u dewis nhw. Maent yn sicrhau bod y lleoliad yn drefnus ac yn ystyried anghenion unigol y plant yn dda. O ganlyniad, gall y plant ddewis yn rhydd o blith y gweithgareddau a'r ardaloedd a ddarperir gan y lleoliad. Maent yn gwneud yn siŵr bod y plant yn cael gofal da mewn amgylchedd dysgu cefnogol a hamddenol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar ansawdd da ar gael yn hawdd i'r plant, y mae llawer ohonynt wedi'u gwneud o ddeunydd wedi'i ailgylchu. Maent yn helpu'r plant i ddysgu drwy chwarae yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys darnau rhydd ar gyfer adeiladu, teiars yn yr ardal awyr agored ar gyfer plannu a chegin sy'n cynnwys offer metel, sosbenni a phadelli, sy'n ychwanegu elfen ddilys at chwarae'r plant. Caiff eitemau eu storio'n dda er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn lân, mewn cyflwr da a'u bod ar gael yn hawdd i'r plant. Mae'r amgylchedd a'r ardaloedd dysgu yn cynnwys adnoddau naturiol a dilys sy'n cyfoethogi'r ardaloedd hynny er mwyn creu cyfleoedd diddorol i'r plant ac ysgogi eu chwilfrydedd, eu dychymyg a'u creadigrwydd. Mae'r arweinwyr yn darparu ardaloedd hygyrch ar gyfer cydbwyso a llithro er mwyn galluogi'r plant i feithrin amrywiaeth o sgiliau corfforol. Mae dodrefn a chyfleusterau addas ar gael, gan gynnwys cadeiriau a byrddau maint plant er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac y gallant fod yn annibynnol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol o amrywiaeth yn y gymuned drwy ymweld â'r ardal leol yn ogystal â thrwy straeon a thrwy ddathlu rhai traddodiadau o ddiwylliannau gwahanol. Maent yn darparu nifer o lyfrau amlddiwylliannol a theganau i'r plant er mwyn iddynt ddechrau dysgu am ddiwylliannau gwahanol yn llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn darparu arweinyddiaeth gryf ac yn grymuso'r ymarferwyr i arwain a gwneud penderfyniadau er lles pennaf y plant. Mae'r ethos a'r weledigaeth glir hon yn hyrwyddo gwaith tîm effeithiol a phrosesau cydweithredu llwyddiannus ym mhob rhan o'r lleoliad. Mae'r arweinwyr wedi llunio datganiad o ddiben clir sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad. Caiff polisïau perthnasol eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhannu â'r rhieni a'r ymarferwyr. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd diogel a chroesawgar lle gall y plant dyfu a datblygu. Mae'r arweinwyr yn datblygu gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau addas sy'n ystyried barn amrywiaeth o randdeiliaid. Maent yn ymgynghori â'r ymarferwyr, y rhieni a'r gofalwyr i gasglu eu hadborth ar gryfderau'r lleoliad a'r meysydd

i'w gwella. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i gynllunio gwelliannau parhaus, gan anelu at gynnig darpariaeth o'r safon uchaf i'r plant yn eu gofal.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio cyllidebau a grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau mewn modd pwrpasol. Maent yn gwella profiadau dysgu'r plant drwy fuddsoddi mewn adnoddau gwerthfawr, fel dodrefn newydd a thrwy wneud gwelliannau i'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wedi cyflwyno wal ddŵr a gardd flodau er mwyn annog a meithrin sgiliau creadigol, mathemategol a chyfathrebu'r plant. Mae eu gwaith cynllunio meddylgar yn annog y plant i gymryd rhan ac yn sicrhau eu bod yn llwyr ymroi i'w chwarae a'u dysgu.

Mae'r arweinwyr yn dilyn trefniadau effeithiol i oruchwylio a monitro perfformiad yr ymarferwyr. Gyda'i gilydd, maent yn myfyrio ar eu rolau a'u cyfrifoldebau, gan nodi targedau synhwyrol er mwyn gwella ac yn trefnu hyfforddiant gwerthfawr o ansawdd da fel y bo angen. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant pwrpasol ar gynllunio a strategaethau i gefnogi datblygiad iaith a chyfathrebu'r plant. Mae hyn wedi arwain at brofiadau dysgu mwy cyfoethog a chynnydd yn y cyfleoedd i'r plant feithrin eu sgiliau cyfathrebu. Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson er mwyn diogelu’r plant. Mae ganddynt systemau rhagorol ar waith i sicrhau bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu diweddaru mewn modd amserol. Mae gan bob ymarferwr ddisgrifiad swydd clir a pherthnasol. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol, ac mae prosesau goruchwylio'r arweinwyr yn sicrhau atebolrwydd drwy ddirprwyo'n briodol i arweinydd y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn annog amrywiaeth o bartneriaethau effeithiol sy'n hyrwyddo dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r rhieni, asiantaethau allanol a'r awdurdod addysg lleol. Maent yn rhoi gwybodaeth reolaidd i'r rhieni am gynnydd eu plant, ac am y gweithgareddau amrywiol maent yn eu mwynhau yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y rhieni yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod profiadau eu plant ac i ddathlu eu cynnydd o ran sgiliau gwahanol. Maent wedi meithrin cysylltiadau cadarnhaol â'r ysgolion lleol drwy'r gweithiwr cyswllt â theuluoedd ac, o ganlyniad, mae trefniadau effeithiol ar waith i helpu'r plant i drosglwyddo'n hwylus i'w cam dysgu nesaf.

Dywed y rhieni bod eu plant yn mwynhau mynd i'r lleoliad a chymryd rhan yn yr amrywiaeth eang o brofiadau sydd ar gael iddynt. Mae'n hawdd iawn mynd at yr ymarferwyr, ac mae'r rhieni yn hyderus y caiff unrhyw bryderon a allai fod ganddynt eu datrys yn gyflym ac yn briodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2025